24.11.22

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Blas o'r Afal Mawr – Chris 'Flamebaster' yn profi byd o fwyd o flaen ei fysedd yn Efrog Newydd.

Boom! Mae Chris 'Flamebaster' Roberts yn ôl a'r tro hwn, taith fythgofiadwy i Efrog Newydd sydd ar y fwydlen.

Nol ym 1836, hwyliodd y llong Ann o'r Cei yng Nghaernarfon a theithio dros 3,000 o filltiroedd i bobl ddod o hyd i fywyd newydd yn Efrog Newydd. Ac eleni, mae gan Chris, am y tro cyntaf erioed, docyn i hedfan i'r Afal Mawr – rhywle mae o wastad wedi bod eisiau mynd.

Yn y bennod gyntaf o'r gyfres newydd **Chris a'r Afal Mawr**, cawn ein cyflwyno i glasuron Efrog Newydd. Un o'r bwydydd sy'n sicr yn glasur yn y ddinas yma yw pastrami, a'r lle cyntaf mae Chris yn mynd yw Kat'z Delicattessen, y deli hynaf yn Efrog Newydd, sydd yn arbenigo mewn brechdanau pastrami enfawr. Ond sydd efallai fwyaf adnabyddus am olygfa enwog yn y ffilm *When Harry Met Sally*.

Heb amheuaeth, clasur arall yn Efrog Newydd yw'r pitsa. A pa ffordd well o gael blas ar rhai o'r gorau na mynd ar daith pitsa mewn bws ysgol felen eiconig dros y ddinas? Un (o lawer) o'r bwytai pitsa ar y daith yma yw Luigi's, sy'n gwneud y *New York Slice* enwog – pitsa mawr sy'n cael ei werthu fesul sleis.

Yma, mae Chris a'i griw yn cwrdd â Gio, y perchennog, a mab Luigi. Fe wariodd Luigi lawer o arian ar addysg ei fab er mwyn iddo fynd ymlaen i gael swydd dda. Ond ar ôl gweithio mewn swyddfa am lai na blwyddyn, penderfynodd Gio mai dilyn llwybr ei dad yn gwneud pitsa oedd y llwybr iddo fo, a dydi o heb edrych yn ôl:

*"This isn't work, this is fun. When you love what you do its not work,"* meddai Gio.

Rhywbeth arall sy'n sicr yn glasur, ond efallai nid pawb sy'n gwybod amdano yw'r *'Chopped Cheese'*. Brechdan sy'n gymysgedd o gig eidion mân a chaws, sy'n boblogaidd iawn ymysg dinasyddion go iawn Efrog Newydd.

A'r lle i gael un ydi Shmackwich, gan Chef Sibs, sydd wedi mynd a'r clasur yma i'r lefel nesaf.

"*New York in a bite*" yw'r frechdan yma, yn ôl Sibs.

Yng nghanol yr holl fwytai anhygoel, mae Chris hefyd yn coginio bwydydd sydd wedi'i ddylanwadu ar y ffordd (gyda'r BBQ wrth gwrs!) fel *calzone* sy'n plethu'r pitsa a'r *'Chopped Cheese'* ac mae'n cael y cyfle i goginio mewn digwyddiadau arbennig i bobl y ddinas.

Trwy gydol y gyfres, mae Chris yn cael cwmni rhai o Gymry Efrog Newydd sy'n byw a gweithio yno, fel yr actor enwog Mathew Rhys.

Ac yn y bennod olaf, mi fydd un o'i ffrindiau gorau, y cogydd amryddawn Tomos Parry, yn hedfan draw ato i ddangos y llefydd mae o eisiau bwyta. Cogydd yn y bwyty enwog Brat yn Llundain, sy'n coginio bwyd *Michelin* gyda thân, yw Tomos. Mae Brat yn cael ei adnabod fel un o'r llefydd gorau i fwyta ym Mhrydain ac ar y rhestr o'r 100 lle gorau i fwyta yn y byd.

Felly dewch i gwrdd â chymeriadau arbennig, pob un â gwên a stori unigryw mewn dinas eiconig sy'n cynnwys pum bwrdeistref, 800 iaith a llwyth o ddiwylliannau.

Yng ngeiriau Chris:

"Cymrwch *chill*, tolltwch ddrinc bach a byddwch yn barod i lyfu'r sgrin 'na, ia!"

Fydd pennod gyntaf y gyfres **Chris a'r Afal Mawr** ar S4C ar 7 Rhagfyr gyda'r gyfres gyfan ar gael ar alw ar S4C Clic a BBC iPlayer o'r dyddiad yma.

**DIWEDD**

**Nodiadau i Olygyddion:**
Mae Chris 'Flamebaster' Roberts yn ddiweddar wedi ennill 2 gwobr BAFTA Cymru am y Cyflwynydd Gorau a'r Rhaglen Adloniant Orau am ei gyfres Bwyd Byd Epic Chris.

**Chris a'r Afal Mawr**
**Nos Fercher 7 Rhagfyr, 9.00**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

24.11.22

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# A bite of the Big Apple – Chris 'Flamebaster' tastes a world of food at his fingertips in New York

Boom! Chris 'Flamebaster' Roberts is back and this time, an unforgettable trip to New York is on the menu.

Back in 1836, the ship Ann sailed from Caernarfon and traveled over 3,000 miles for people to find a new life in New York. And this year, Chris, for the first time ever, has a ticket to fly to the Big Apple – a place he has always wanted to go.

The first episode of the new series **Chris a'r Afal Mawr** (Chris and the Big Apple) introduces us to New York classics. And pastrami is something that is certainly a classic in this city. The first place Chris visits is Kat'z Delicatessen, the oldest deli in New York, which specializes in huge pastrami sandwiches. But is perhaps best known for a famous scene in the film When Harry Met Sally.

Without a doubt, another New York classic is the pizza. And what better way to get a taste of some of the best than a pizza tour in an iconic yellow school bus across the city? One (of many) of the pizza restaurants on this trip is Luigi's, who makes the famous New York Slice - a large pizza that is sold by the slice.

Here, Chris meets Gio, the owner, and Luigi's son. Luigi spent a lot of money on his son's education so that he could get a good job. But after working in an office for less than a year, Gio decided that following in his father's footsteps making pizza was the path for him, and he hasn't looked back:

"This isn't work, this is fun. When you love what you do its not work," said Gio.

Something that's certainly a classic, but perhaps not everyone knows about is 'Chopped Cheese'. A sandwich which is a mixture of ground beef and cheese that's popular among true New Yorkers.

And the place to get one is Shmackwich, by Chef Sibs, who has taken this classic to the next level.

This sandwich is "New York in a bite", according to Sibs.

As well as all these amazing restaurants, Chris also cooks food that has inspired him on the way, (using the BBQ of course!) like a calzone that blends the pizza and Chopped Cheese, and he gets to cook at special events for the city's residents.

Throughout the series, Chris is joined by some Welsh people who live and work in New York such as the famous actor Mathew Rhys.

And in the last episode, he's joined by one of his best friends, the talented chef Tomos Parry, to show the places that he wants to eat. Tomos is a chef at the famous Brat restaurant in London, cooking Michelin starred food with fire. Brat is known as one of the best places to eat in Britain and on the list of the 100 best places to eat in the world.

So come to meet incredible people, each with a smile and a unique story in an iconic city that includes five suburbs, 800 languages and many different cultures.

In Chris's words:

"Take a chill, pour yourself a drink and get ready to lick that screen!"

The first episode of **Chris a'r Afal Mawr** will be on S4C on 7 December with the whole series available on demand on S4C Clic and BBC iPlayer from this date.

**END**

**Notes to Editors:**
Chris 'Flamebaster' Roberts has recently won 2 BAFTA Cymru awards for the Best Presenter and Best Entertainment Programme for his series Bwyd Byd Epic Chris.

**Chris a'r Afal Mawr**
**Wednesday 7 December, 9.00pm**
**Welsh and English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**